PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2B

RÔL Y CLERC

Cyflwyniad

1. Swyddogaeth gyffredinol y Clerc/Swyddog Tribiwnlys yw darparu cefnogaeth dechnegol a gweinyddol i'r Tribiwnlys/Panel Apêl.

Yn ystod y Gwrandawiad

2. Dylai'r Clerc/Swyddog Tribiwnlys wneud y canlynol:

- Cynghori'r Tribiwnlys/Panel Apêl ar
  (a) gwestiynau o gyfraith
  (b) ar gwestiynau cymysg o gyfraith a ffaith
  (c) ymarferiad a threfniadaeth
  (ch) unrhyw benderfyniad perthnasol o'r tribiwnlys a llysoedd uwch
  (d) bod y strwythur gwneud penderfyniadau yn cael ei gymhwyso i unrhyw apêl
- cadw nodyn cywir a llawn o dystiolaeth a chyflwyniadau'r partïon yn y gwrandawiad
- dim ond gofyn cwestiynau i'r partïon/tystion am eglurhad o'r dystiolaeth

Ar ddiwedd y Gwrandawiad

3. Bydd y Clerc/Swyddog Tribiwnlys fel rheol yn cael eu gwahodd i ymddeol gyda'r Tribiwnlys/Panel Apêl.

4. Os yn ystod trafodaethau yn yr ystafell ymddeol, bydd y Clerc/Swyddog Tribiwnlys, yn rhoi cyngor sylweddol i'r Tribiwnlys/Panel Apêl sydd heb gael ei drafod o'r blaen yn ystod y gwrandawiad, bydd angen ailymgynnull y gwrandawiad ar gyfer y cyngor hynny i gael ei gynnig ym mhresenoldeb y partïon ac iddynt gael cyfle i roi sylwadau.

5. Yn yr ystafell ymddeol, bydd yr aelod sy'n llywyddu yn sicrhau bod y Clerc/Swyddog Tribiwnlys yn cael gwybod am resymu'r Tribiwnlys/Panel Apêl a'u dealltwriaeth a'u canfyddiadau ar y ffeithiau, fel y gall y penderfyniad ysgrifenedig terfynol gyda rhesymau gael ei ddrafftio. Yn ogystal, gall y Clerc/Swyddog Tribiwnlys gynorthwyo'r aelod llywyddu gyda geiriad unrhyw benderfyniad llafar sy'n cael ei gyfleu.

6. Lle nad oes ystafell ymddeol ar wahân ac mae'n rhaid i'r Tribiwnlys/Panel Apêl ystyried yn ystafell y gwrandawiad. Dylai'r darpariaethau uchod gael ei ddarllen yn unol â hynny gyda'r partïon, eu cynrychiolwyr, aelodau'r cyhoedd a'r Clerc/Swyddog Tribiwnlys yn gadael ystafell y gwrandawiad neu'n cael eu galw i mewn fel y bo'n briodol.

7. Pan fo'r Tribiwnlys/Panel Apêl yn penderfynu cynnal archwiliad safle, bydd y Clerc/Swyddog Tribiwnlys yn mynd gyda hwy.

Penderfyniad

8. Mae'r Clerc/Swyddog Tribiwnlys sy'n gyfrifol am gofnodi rhesymau'r Tribiwnlys/ Panel Apêl a drafftio'r penderfyniad i'w gymeradwyo neu newid gan yr aelod sy'n llywyddu, a fydd yn llofnodi fersiwn terfynol y penderfyniad cyn ei anfon at y partïon.

9. Dylai'r drafft gofnodi'n gywir y canfyddiadau ffeithiol a ddeddfwriaethol a wneir gan y Tribiwnlys/Panel Apêl.

10. Mae'n ddyletswydd ar y Tribiwnlys/Panel Apêl i ddod i benderfyniad rhesymegol.